YR YSTWYLL 5

ESEIA 58:1-9A [9B-12]; SALM 112:1-9 [10];
1 CORINTHIAID 2:1-12 [13-16]; MATHEW 5:13-20

● **Gweddi agoriadol**
Dy ddiwrnod di yw hwn
ac fe'th folwn
â'r cwbl sydd ynom,
calonnau, eneidiau, lleisiau,
wedi'u dyrchafu mewn moliant
a chlod.
Dy ddiwrnod di yw hwn
ac fe'th folwn.

● **Moliant**
Ysbryd y gwirionedd
sy'n datguddio i ni bethau Duw,
molwn dy enw.

Ysbryd doethineb
sy'n darparu geiriau i ni eu llefaru,
molwn dy enw.

Ysbryd grym
sy'n rhoi dewrder i ni weithredu,
molwn dy enw.

Ysbryd cariad
sy'n ein nabod ac yn dal i'n caru,
molwn dy enw.

● **Cyffes**

Yr addoli sy'n dy foddhau
yw nid ein geiriau yn unig
ond ein bywydau a'n calonnau.
Yr addoli sy'n dy foddhau
yw i ni ddwyn cariad a chyfiawnder
i'r mannau lle mae terfysg,
iechyd a chynhesrwydd
i'r mannau lle mae angen.

Mae'r addoli a gyflwynwn
yn fyr o'r disgwyl.
Maddau i ni pan nad yw'n bywydau
yn gyson â'n ffydd.
Dyro ofal ynom dros bawb
yr arweini ni atynt,
a pharodrwydd i wasanaethu,
er mwyn i'th enw gael ei ogoneddu
yn y cariad a ddangoswn.

● **Diolch**

Fab Duw,
gyda chalonnau diolchgar
dilynwn di,
yr un a gerddodd ein daear fel y proffwydwyd
gan air diamser yr ysgrythurau,
ac agor drws y deyrnas
i bawb gael cerdded i mewn;
yr un a gerddodd lwybr aberth
a gwasanaeth i'r byd,
i bawb gael nabod grym y deyrnas
a neb wedi'u gadael tu allan.
Fab Duw,
gyda chalon ddiolchgar
fe'th ddilynwn.